

FLYING START CARMARTHESHIRE

DECHRAU'N DEG SIR GÂR



CANLLAWIAU PRESENOLDEB

Canllawiau Presenoldeb Dechrau'n Deg

Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn i gefnogi arfer da mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn Sir Gaerfyrddin o ran presenoldeb. Trwy gynnig amrywiaeth eang o brofiadau ymarferol mae'r plant yn datblygu wrth eu pwysau eu hunain gan gyrraedd eu potensial unigryw. Nod lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yw datblygu amgylchedd sy'n gwahodd plant i archwilio, cwestiynu, ymchwilio, creu a dychmygu.

Mae plant sy'n mynychu gofal plant cyn-ysgol yn datblygu'n well yn ddeallusol ac maent yn fwy parod ar gyfer yr ysgol ac yn y tymor hir.

Mae plant yn gwneud ffrindiau ac yn datblygu perthnasoedd cymdeithasol gwell, gan gael hwyl, a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Diben y Canllawiau

Mewn lleoliadau Dechrau'n Deg rydym ni o'r farn bod **presenoldeb da'n hanfodol i alluogi** plant i ymgartrefu a chael budd o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Pan fo plant yn fach mae parhad a chysondeb yn gwneud cyfraniad pwysig at eu lles a'u cynnydd. Rydym hefyd o'r farn bod presenoldeb rheolaidd mewn lleoliad Dechrau'n Deg yn gallu gosod cysail ar gyfer addysg statudol.

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl blant yn cael 'Dechrau Da mewn bywyd'. Dan yr ymrwymiad hwn mae Awdurdodau Lleol trwy Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae wedi cael grant penodol sydd wedi'i fwriadu i wneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd plant dan 4 oed. Mae hyn yn cynnwys cynnig gofal plant rhan-amser am ddim i blant 2 – 3 oed yn yr 17 o ardaloedd Dechrau'n Deg dynodedig yn Sir Gaerfyrddin.

Cynigir gofal plant i'r holl blant cymwys o'r tymor ar ôl eu 2^{il} ben-blwydd tan y tymor yn dilyn eu 3^{ydd} pen-blwydd. Mae pob plentyn yn cael cynnig 5 sesiwn yr wythnos am 2 ½ awr. Cynigir sesiynau gofal plant yn ddwyieithog, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Y broses

Cofrestru mewn Lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg

Wrth gofrestru plentyn mewn lleoliad Gofal Plant, bydd rhieni'n cwblhau'r cytundeb presenoldeb (gweler y **Cytundeb Presenoldeb**, tud). Bydd copi o'r cytundeb hwn yn cael ei roi i'r Cydlynnydd Gofal Plant Dechrau'n Deg a bydd copi'n cael ei gadw yn Ffeil Cofnod y Plentyn yn y lleoliad. Caiff rhieni eu gwneud yn ymwybodol o'r disgwyliad y dylent hysbysu aelod o staff yn y lleoliad gofal plant cyn gynted â phosibl os na fydd eu plentyn yn mynychu gofal plant ar y diwrnod hwnnw (gweler i siart llif **Canllawiau Presenoldeb**, tud).

Yn aml, mae angen bod yn hyblyg o ran nifer y sesiynau y mae plant yn eu mynychu er mwyn darparu ar gyfer anghenion rhieni. Er enghraifft, os yw rhiant yn penderfynu dod â'i blentyn i dri sesiwn yn unig, dylid caniatáu hynny. Fodd bynnag, dylai darparwyr annog rhieni i fanteisio ar yr holl ofal plant mae ganddynt hawl i'w gael, lle bo modd (Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru - Atodiad 2 2013). Gwneir rhieni'n ymwybodol bod ganddynt hawl i gynyddu nifer y sesiynau unrhyw bryd, ar yr amod bod argaeledd yn y lleoliad oherwydd cymarebau oedolion/plant.

Deilliannau

Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. Yn Sir Gaerfyrddin, rydym yn amcanu at bresenoldeb o 80% - 90% ym mhob lleoliad.

Pwy sy'n Gyfrifol?

Cyfrifoldeb yr holl leoliadau Dechrau'n Deg a staff gofal plant yw rhoi anogaeth ar gyfer presenoldeb da a chefnogi teuluoedd.

Dylai'r staff fod yn rhagweithiol wrth gysylltu â theuluoedd â phlant sy'n gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg, er mwyn sicrhau cefnogaeth rhieni a phresenoldeb plant yn y lleoliadau. Efallai bydd angen dycnwch a dyfeisgarwch i ymgysylltu â rhai o'r rhieni, yn arbennig o'r grwpiau 'anodd eu cyrraedd', fel bod eu plant yn cael eu dyraniad gofal plant llawn (Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru - Atodiad 2 2013).

Mae'r Arweinydd Gofal Plant yn coladu ac yn monitro gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer yr holl blant bob mis. Anfonir copi o'r wybodaeth hon at y Tîm Perfformiad Dechrau'n Deg sydd wedyn yn ei hanfon at Lywodraeth Cymru bob tymor.

Dylai'r holl leoliadau gofal plant ddilyn y canllawiau canlynol ac nid yw'n disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Fodd bynnag, mae'n helpu i reoli risg yn ddiogel.

Codau ar gyfer y Gofrestr

Dyma'r codau ar gyfer y gofrestr a fydd yn cael eu defnyddio gan y Rheolwyr Gofal Plant i gofnodi absenoldeb.

- **X** - croes ym mhob blwch ar y diwrnodau pan oedd y plentyn yn bresennol go iawn am y cyfnod hwn,
- **A** - ar gyfer absenoldeb awdurdodedig
- llythyren **O** - ar gyfer absenoldeb anawdurdodedig.

Os ydych ar agor, sicrhewch fod X, A neu'r llythyren O ym mhob blwch.

Absenoldeb awdurdodedig:-

Gall hyn gynnwys salwch, apwyntiadau meddygol, gwyliau, egwylion treftadaeth a.y.b. Mae hyn yn berthnasol i absenoldebau pan fo aelod o staff yn y lleoliad gofal plant wedi cael gwybod gan y rhiant / gwarcheidwad ymlaen llaw neu ar fore'r absenoldeb.

Absenoldeb anawdurdodedig:-

Pan nad yw'r staff gofal plant wedi cael eu hysbysu gan y rhiant/gwarcheidwad na fydd y plentyn yn bresennol.

(Fel a nodir yn y diagram isod)

Cytundeb Presenoldeb Dechrau'n Deg

Mae hwn yn gytundeb rhwng _____ (enw'r feithrinfa) a
_____ (enw'r rhiant/gwarcheidwad).

Darperir Gofal Plant Dechrau'n Deg er budd eich plentyn. Caiff presenoldeb ei fonitro gan y feithrinfa ac adroddir arno wrth Lywodraeth Cymru bob mis. Gyda hyn mewn cof, mae'n hollbwysig bod y rhiant/gwarcheidwad yn hysbysu'r feithrinfa cyn gynted â phosibl pan fo'i blentyn yn absennol oherwydd salwch, gwyliau a.y.b.

Eich cyfrifoldeb chi fel y rhiant/gwarcheidwad yw cysylltu â'r feithrinfa erbyn diwedd y sesiwn i'w hysbysu pam fod eich plentyn wedi bod yn absennol. Mae presenoldeb da'n allweddol i baratoi eich plentyn ar gyfer yr ysgol a hybu datblygiad eich plentyn.

Yr wyf yn ymwybodol bod gan fy mhlentyn hawl i bum sesiwn 2.5 awr o Ofal Plant Dechrau'n Deg yr wythnos, a bod y Gofal Plant hwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyd at 210 o sesiynau y flwyddyn.

ENW'R PLENTYN: _____ DYDDIAD GENI: _____

Bydd y plentyn a enwir uchod yn mynychu _____ (enw'r feithrinfa) am _____ sesiwn yr wythnos, sef yr hyn y mae'r feithrinfa wedi cytuno ei bod yn gallu ei gynnig. Mae'r sesiynau y bydd fy mhlentyn yn eu mynychu fel a ganlyn:

	a.m.	p.m.	nodiau
Dydd Llun			
Dydd Mawrth			
Dydd Mercher			
Dydd Iau			
Dydd Gwener			

Os na ddefnyddir yr hawl lawn ar hyn o bryd, gellir cynyddu nifer y sesiynau (os oes lleoedd ar gael) yn dilyn trafod gyda'r Arweinydd Gofal Plant neu berson allweddol y plentyn. Bydd Cytundeb Presenoldeb newydd yn cael ei gwblhau pan gytunir ar gynydd neu ostyngiad yn y sesiynau.

Yr wyf wedi darllen a deall yr uchod ac wedi cael copi o'r Cytundeb Presenoldeb.


LLOFNOD: _____ (rhiant/gwarcheidwad) DYDDIAD: _____

LLOFNOD: _____ (Arweinydd/Gweithiwr Gofal Plant)


ENW: _____ (Arweinydd/Gweithiwr Gofal Plant)

Ar gyfer defnydd y Swyddfa yn unig			
Gwiriwyd gan:		Dyddiad:	Llofnod:

Canllawiau Presenoldeb Gofal Plant Dechrau'n Deg



Rheoli Absenoldeb 1



Cerdyn “Rydym wedi gweld dy eisiau”



Rydym wedi gweld dy eisiau!

Mae'r holl staff a phlant ynyn gweld dy eisiau a byddem wrth ein bodd yn dy weld yn ôl yno gyda ni, yn chwarae ac yn cael hwyl.

Ffonia ni cyn gynted â phosibl ar

Protocol ar gyfer anfon Llythyr Presenoldeb

Mis 1

Os yw'r lleoliad Gofal Plant wedi anfon llythyr 1 ar ôl 15 diwrnod; ysgogi ymweliad cartref gan yr Y.I, ffurflen hawlio i gael ei gwirio am y mis canlynol ac os yw presenoldeb y plentyn islaw 80% anfon Llythyr Monitro Presenoldeb.

Ar y pwynt yma, bydd y Cydlynnydd Gofal Plant yn cysylltu â'r Ymwelydd Iechyd a'r Lleoliad Gofal Plant.

Cyfnod rhybudd

Os nad yw presenoldeb y Plentyn yn cynyddu yn dilyn derbyn llythyr monitro presenoldeb, bydd y plentyn yn cael ei ddatgofrestru a bydd llythyr datgofrestru'n cael ei anfon at y teulu (Bydd copi'n cael ei roi i'r Ymwelydd Iechyd a'r Lleoliad Gofal Plant). Bydd y llythyr yn cychwyn y cyfnod rhybudd o fis gyda'r plentyn a'r lleoliad gofal plant; bydd y llythyr yn cynnwys y dyddiad.

Os yw presenoldeb y plentyn yn gwella yn y mis yn dilyn y llythyr; bydd presenoldeb yn cael ei fonitro

Rheoli Absenoldeb 3 Ar gyfer Plant â Phryderon Diogelu*

* A Adnabuwyd fel Plentyn mewn Angen neu Achos Amddiffyn Plant

